# Côd y Môr
## i fywyd gwyllt ... i chi

Mae anifeiliaid, adar a phlanhigion y môr yn rhannu dyfroedd arfordirol Cymru gyda chi. Rydym ni'n ffodus iawn o gael cymaint o amrywiaeth o greaduriaid hardd ac arbennig yn byw yn y mannau yma. Fodd bynnag, oherwydd bod rhai o'r adar, yr anifeiliaid a'r planhigion yma mor brin, mae deddfwriaeth i'w chael sy'n eu diogelu ac sy'n sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod o fewn amgylchedd y môr.

Mae rhai gweithgareddau, gan gynnwys defnyddio cychod/llongau, yn gallu effeithio ar y bywyd gwyllt yma. Mae Côd y Môr wedi cael ei lunio i'ch helpu i ddeall sut y mae'r bywyd gwyllt sy'n defnyddio moroedd ac arfordiroedd Cymru yn cael ei warchod, a'r hyn y gallwch chi ei wneud er mwyn osgoi torri'r gyfraith.

Mae pob dolffin, llamhidydd a morfil (teulu'r morfilod), heulforgi, môr-grwban ac aderyn gwyllt, yn cael eu gwarchod gan y gyfraith rhag cael eu lladd, eu hanafu neu eu cymryd yn fwriadol. Mae rhai pysgod a rhai anifeiliaid eraill, gan gynnwys morloi, hefyd yn cael eu gwarchod gan y gyfraith.

Caiff pob planhigyn ei warchod rhag cael ei ddadwreiddio. Ymhellach, caiff rhai planhigion eu gwarchod rhag cael eu casglu neu eu dinistrio. Mae tarfu'n fwriadol ar forfilod, a tharfu'n ddiofal ar heulforgwn a rhai adar gwyllt yn drosedd, ac felly ddifrodi nythod unrhyw aderyn gwyllt yn fwriadol tra maen nhw'n cael eu hadeiladu neu eu defnyddio. Hefyd, mae'n drosedd cymryd neu ddinistrio wyau unrhyw aderyn gwyllt.

Trwy ddilyn y côd yma, fe fyddwch yn helpu i warchod amgylchedd y môr ac yn gwneud yn siwˆr ei fod yn cael ei ddiogelu er lles eich mwynhad chi ac eraill.

MWYNHAU A PHARCHU AMGYLCHEDD Y MÔR

• Trwy fod yn ymwybodol o'r hyn sydd o'ch cwmpas, ac o fywyd gwyllt y môr, byddwch yn gallu gwerthfawrogi llawer mwy ar yr amgylchedd arbennig yma.
• Peidiwch â tharfu ar greaduriaid y môr. Peidiwch â'u cyffwrdd, eu bwydo na nofio gyda nhw.
• Caiff rhai anifeiliaid a phlanhigion morol prin iawn eu gwarchod mewn modd arbennig, ac fe allai fod yn drosedd eu tynnu o'r môr.
• Cadwch yn ddigon pell oddi wrth glogwyni pan fydd adar yn bridio (1 Mawrth – 31 Gorffennaf).
• Peidiwch â mynd yn agos at forloi sy'n gorffwyso ar y lan, a pheidiwch â mynd i ogofâu môr pan fydd morloi'n cael rhai bach (1 Awst – 31 Hydref).

Defnyddwyr cychod (yn cynnwys cychod modur, cychod hwyliau, caiacau ac ati):

• Cofiwch adael i anifeiliaid ac adar y môr ddod atoch chi ar y môr ac, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, cofiwch gadw eich cwch/llong ar gyfeiriad a chyflymder cyson. Pan fyddwch yn agos at famaliaid y môr fe ddylech chi gadw pob cwch/llong ar gyflymder o ddim mwy na 6 not.

• Cadwch o leiaf 100m oddi wrth forloi, morfilod, heulforgwn ac adar sy’n nythu, a pheidiwch ag aros yn yr ardal honno am fwy na 15 munud.
• Os bydd cychod/llongau eraill yn ymuno â chi, symudwch oddi yno os oes angen er mwyn sicrhau na fydd mwy na 3 cwch/llong yn yr ardal ar y tro.
• Peidiwch â llywio eich cwch/llong yn syth tuag at fywyd gwyllt y môr a pheidiwch â newid cyflymder neu gyfeiriad yn sydyn.
• Gwnewch yn siwˆr fod pob propelor ac injan yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda. Fe allai gosod giardiau ar y propelor leihau’r perygl o anafu anifeiliaid y môr.
• Peidiwch â chael gwared â thanwydd, olew neu sbwriel, yn enwedig pethau plastig ac offer pysgota, yn y môr. Ewch â’ch sbwriel adref gyda chi.

Ceisiwch helpu i warchod bywyd gwyllt y môr.

Mae is-ddeddfau a Chodau Ymddygiad yn berthnasol i nifer o ardaloedd o gwmpas Cymru. A fyddech gystal â chofio amdanyn nhw, gan gadw atyn nhw.

Mae troseddu’n erbyn bywyd gwyllt yn gallu arwain at ddirwy, neu hyd yn oed at garchar. Os gwelwch chi unrhyw un yn ymddwyn yn anghyfrifol yn amgylchedd y môr, cofiwch ddweud wrth eich Heddlu lleol, ac os oes modd siaradwch gyda Swyddog Cyswllt Bywyd Gwyllt yr Heddlu, sy’n delio’n benodol â throseddau’n erbyn bywyd gwyllt.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â’ch swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) leol, neu’r Tîm Ymholiadau CNC, ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Ffôn 0300 065 3000.

Er mwyn dweud eich bod wedi gweld dolffiniaid, llamidyddion a morfilod, cysylltwch â’r Sea Watch Foundation, PO Box 3688, Chalfont St Peter, Gerrards Cross, SL9 9 WE. Ffôn: 0845 202 3892.

Er mwyn dweud eich bod wedi gweld dolffiniaid, llamidyddion, morfilod a môr-grwbanod marw neu ddiymgeledd, cysylltwch â Marine Environmental Monitoring. Ffôn: 01348 875000.

Er mwyn dweud eich bod wedi gweld anifeiliaid neu adar byw diymgeledd, adar môr sydd ag olew arnyn nhw, neu anifeiliaid neu adar môr sy’n ymddangos fel pe baen nhw mewn trafferth, cysylltwch â’r RSPCA. Ffôn: 0300 1234 999.